# Llythyr o Gymru i Batagonia

Mae Geraldine, gafodd ei geni a'i magu ym Mhatagonia, wedi dod i dreulio chwe mis yng Nghymru. Pan oedd ei mamgu yn ddeg oed ymfudodd i Batagonia i fyw. Dyma un llythyr a anfonodd at ei mamgu.

Cartrefle,
Llanfadlen,
Gwynedd.
Hydref 17eg.

Annwyl Mamgu,

O'r diwedd dyma ysgrifennu llythyr llawn atoch yn lle e-bostio neu siarad ar Skype. Y noson o'r blaen roeddech yn gofyn pa mor debyg ydy Cymru i'r Gymru rydych chi'n ei chofio pan oeddech yn blentyn. Wel, gwahanol iawn, ddywedwn i!

Rydw i'n digwydd ysgrifennu hwn yn ystod wythnos hanner tymor yr hydref. Mae'r gwyliau yma yn dal i gael ei adnabod fel Gwyliau Diolchgarwch ond does dim 'Dydd Llun Diolchgarwch' fel ers talwm. Un gwasanaeth diolchgarwch ar ddydd Sul sydd erbyn hyn ac nid oes tri gwasanaeth ar ddydd Llun fel pan oeddech chi'n fach. Dydy'r capeli ddim yn orlawn o bobl chwaith na'r siopau ar gau.

Ond efallai mai'r gwahaniaeth mwyaf fyddech chi'n ei weld ydy bod y siopau ar agor ar ddydd Sul ac yn brysurach y dydd yna na'r un dydd yn ystod yr wythnos! Diwrnod i ymlacio gyda'r teulu, mynd i weld ffrindiau, siopa, glanhau'r tŷ neu arddio ydy dydd Sul bellach. Ychydig iawn, iawn o bobl sy'n mynd i'r capel. Mae pob math o chwaraeon yn digwydd ar ddydd Sul – mor wahanol i'ch sefyllfa chi, pan nad oeddech chi'n cael cicio pêl hyd yn oed!

Yma, yn Llanfadlen, mae dau gapel – un capel 'Annibynwyr' ac un capel 'Methodistiaid'. (Rydw i'n eich cofio chi'n egluro'r gwahaniaeth rhwng y gwahanol enwadau crefyddol i mi unwaith!) Llond het o hen bobl sy'n mynd i'r ddau gapel. Byddai'n llawer gwell iddyn nhw ymuno ond mae'n well gan bobl lusgo ymlaen yn eu capeli bach a gweld y sefyllfa yn dirywio. Cadw eu sioe fach eu hunain ar y ffordd sy'n bwysig, ac i mi mae hynny'n drist.

Mae pethau ychydig yn wahanol yn y mannau poblog a mwy Seisnig. Yno, mae'r capeli yn llawn . Pobl o gefndir mwy proffesiynol, pobl o'r dosbarth canol sydd yn eu cynnal a dwi'n rhyw amau mai rhyw fath o glwb i'r dosbarth canol Cymreig ydy'r capeli yma.Ychydig iawn o bobl gyffredin sy'n eu mynychu.

Mae cannoedd o gapeli wedi cau ac fe synnech weld beth sydd wedi digwydd i'r adeiladau. Tai moethus, neuaddau Bingo, clybiau nos, garej, canolfannau hamdden, canolfannau chwarae i blant ac ymlaen ac ymlaen! Fe synnech chi weld faint o grefyddau eraill sydd wedi codi addoldai yng Nghymru hefyd. Mae gweld mosg yn beth cyffredin iawn yma bellach.

Tra roedd crefydd yn chwarae rhan amlwg ym mywyd Cymru pan oeddech chi'n blentyn mae wedi cael ei wthio i'r ymylon erbyn hyn. Dydw i ddim yn meddwl fod gan y prif gylchgronau na rhaglenni radio a theledu fawr o ddiddordeb mewn clywed llais yr eglwys bellach os nad oes yna sgandal - fel y ficer yn rhedeg i ffwrdd gyda'r organyddes! Ond mae un garfan sydd yn tyfu ychydig sef yr un efengylaidd ac mae cryn dipyn o bobl ifanc yn ymuno â'r efengylwyr. Ond dydw i ddim yn credu fod y garfan hon am wneud cyfraniad gwirioneddol oherwydd dydw i ddim yn meddwl ei bod yn siarad gyda'n hoes ni.

Ac mae'n ddigon tebyg mai dyna pam mae sefyllfa grefyddol Cymru wedi newid cymaint ers pan oeddech chi'n ifanc. Ond peidiwch â digalonni, mae Cymru yma o hyd a'r eisteddfodau yn fyw! Fe goda i'ch calon chi pan sonia i am y rheini yn fy llythyr nesaf.
Siarada i yn fuan,

Cariad mawr,

Geraldine.